# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 31 Ionawr 2019

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (9.15-9.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 1 - 23)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-03-19(P1) Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth at y Cadeirydd

## 3 Diweddariad ar y Bargeinion Dinesig: Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

(9.30-10.30) (Tudalennau 24 - 39)

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-03-19(P2) Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

EIS(5)-03-19(P3) Tystiolaeth gan Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

**Egwyl** (10.30-10.45)

## 4 Diweddariad ar y Bargeinion Dinesig: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

(10.45-11.45) (Tudalennau 40 - 43)

Iwan Prys Jones, Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-03-19(P4) Tystiolaeth gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Saesneg yn unig)

**Ôl-drafodaeth breifat** (11.45-12.00)

EIS(5)-03-19(P1)

Eitem 2

**Ken Skates AC/AM**
**Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

21 Ionawr 2019

Annwyl Russell

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am y materion canlynol:

- Sut y mae'r drefn newydd o reoli perfformiad ar gyfer y contract newydd yn mynd i'r afael â'r gwendidau tybiedig ym Masnachfraint flaenorol Trenau Arriva Cymru.
- Yr amcanion sydd wedi'u pennu ar gyfer Trafnidiaeth Cymru o safbwynt rheoli'r fasnachfraint, a sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ddwyn i gyfrif am berfformiad y Partner Gweithredu a Datblygu.

Cafodd gwybodaeth am y drefn newydd o reoli perfformiad ei chyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2018 yn y ddogfen "Cyflwyniad i'r Cytundeb Grant", a amgaeir yn Atodiad A.

Caiff Trafnidiaeth Cymru ei ddwyn i gyfrif gan Lywodraeth Cymru drwy gyfres o ddulliau strategol gan gynnwys Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, y Cytundeb Rheoli a'r Llythyrau Cylch Gwaith. Mae rhai elfennau, fel yr Erthyglau Cymdeithasu, yn ofynnol o dan y gyfraith; mae eraill yn helpu i lywio'r berthynas rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Caiff y berthynas o ddydd i ddydd gyda Trafnidiaeth Cymru ei goruchwylio gan Dîm Noddi Trafnidiaeth Cymru a Thim/Timau Cleient Trafnidiaeth Cymru o fewn Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Tîm Cleient Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu rheolaeth Trafnidiaeth Cymru o berfformiad y Partner Gweithredu a Datblygu o safbwynt cyflenwi gwasanaethau trên a chynlluniau seilwaith. Caiff y gwaith monitro ac adolygu ei wneud yn fisol, ac fel rhan o hyn mae Trafnidiaeth Cymru'n cyflwyno ei wybodaeth reoli a'i wybodaeth am berfformiad i Dîm Cleient Trafnidiaeth Cymru fel y gallant ei hadolygu. Caiff unrhyw faterion lle y mae gofyn mynd uwchlaw'r broses adolygu hon eu cyfeirio at Fwrdd Gweithredol Trafnidiaeth Cymru o fewn Llywodraeth Cymru. Diben y Bwrdd hwn yw goruchwylio'n strategol Trafnidiaeth Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn datblygu dros amser a disgwylir y bydd y trefniadau ar gyfer dwyn Trafnidiaeth Cymru i gyfrif am berfformiad y Partner Gweithredu a Datblygu yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth.
Minister for Economy and Transport

**Atodiad A**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyflwyniad i'r Cytundeb Grant Gweithredwr a Phartner Datblygu (GPD)

Rhagfyr 2018

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | PWRPAS Y DDOGFEN | 2 |
| 2. | CEFNDIR Y BROSES GAFFAEL | 2 |
| 3. | GWASANAETHAU AR GONTRACT | 3 |
| 4. | CYTUNDEB GRANT GPD – MATERION I'W NODI | 5 |
| 5. | YMRWYMIADAU ALLWEDDOL Y GPD | 6 |
| 6. | CYNNWYS Y CYTUNDEB GRANT | 10 |
| 7. | DOGFENNAU ERAILL | 17 |
| 8. | SICRHAU EU BOD YN CAEL EU CYFLAWNI | 18 |
| 9. | TALIADAU | 19 |

## 1. Pwrpas y Ddogfen

1.1 Mae'r Cytundeb Grant Gweithredwr a Phartner Datblygu (GPD) ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau yn ddogfen gontract fawr. Mae'r cyflwyniad hwn yn ganllaw ar ei ofynion a'i ymrwymiadau allweddol.

1.2 Gan mai dogfen gryno ydyw, heb gael ei hysgrifennu â manylder cyfreithiol, bydd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol nad yw'n disgrifio'r cynnwys yn union. Mae'r Cytundeb Grant GPD yn cael y flaenoriaeth wrth ddehongli neu bennu unrhyw rwymedigaeth neu ymrwymiad.

## 2. Cefndir y Broses Gaffael

2.1 Roedd proses gaffael Cymru a Thros y Ffin (CThFf) yn caffael gweithredwr a phartner datblygu (GPD) i fod yn:

- Weithredwr Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, pan ddaeth i ben yn Hydref 2018, gan gynnwys cydymffurfio â rheoliadau newydd ar gyfer hygyrchedd y stoc cerbydau erbyn 2020.
- Cyfrifol am ddarparu Metro De Cymru, gyda gwasanaethau helaethach, amcanion trafnidiaeth integredig a thocynnau ym Metro De Cymru.
- Cyfrifol am ddylunio, rheoli ac integreiddio gwaith sifil, trydaneiddio a gwasanaethau rheilffyrdd ar Reilffyrdd y Cymoedd.
- Cyfrifol am ddarparu stoc cerbydau i ddarparu pedwar trên yr awr ar Reilffyrdd y Cymoedd.
- Rhan o strwythur masnachol ar y cyd i rannu'r risg yn effeithiol rhwng y gweithredwr, darparwr y seilwaith, datblygwyr a Llywodraeth Cymru heb ychwanegu gormod o elw.
- Rhan o strwythur sy'n gallu ymaddasu i alwadau ym Metro De Cymru a'r fasnachfraint yn ehangach yn y dyfodol.

2.2 Dechreuodd y gwaith caffael yn ffurfiol drwy gyhoeddi Hysbysiad Contract yn yr OJEU ar 15 Gorffennaf 2016. Gosodwyd Hysbysiad dan Reoliadau Contractau Cyfleustodau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r weithdrefn Deialog Gystadleuol.

2.3 O ran y gwasanaethau rheilffyrdd, mae hyd a lled a rhwymedigaeth y gwaith caffael yn cael eu disgrifio gan Ddeddf Rheilffyrdd 1993 a'i gofyniad ar gyfer masnachfreinio gwasanaethau rheilffyrdd.

2.4 I gaffael, roedd rhaid darparu pwerau er mwyn gallu cwblhau pethau, sef:

- Roedd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 yn datganoli rhai o bwerau'r Ddeddf Rheilffyrdd i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y dyletswyddau i fasnachfreinio gwasanaethau yng Nghymru.
- Cytunwyd ar Gytundeb Cyfryngaeth 3 gyda'r Adran Drafnidiaeth, ac roedd y cytundeb yn darparu pwerau cyfryngaeth mewn perthynas â gwasanaethau yn Lloegr o fewn Cymru a Thros y Ffin a materion eraill. Nid yw'r Adran Drafnidiaeth wedi datganoli'r pwerau dros wasanaethau yn Lloegr yn y fasnachfraint, felly mae lefel o gyfryngaeth yn parhau ar gyfer y llwybrau a'r gwasanaethau sy'n croesi'r ffin i Loegr, gan gynnwys y llwybr o'r Gogledd i'r De.

## 3. Gwasanaethau ar Gontract

3.1 Cafodd y Cytundeb Grant GPD ei roi ar 4 Mehefin 2018 i KEOLIS AMEY WALES CYMRU LIMITED (y GDP).

3.2 Cyfnod y contract yw 15 mlynedd o'r dyddiad dechrau, sef 14 Hydref 2018. Mae darpariaeth hyd at ddau ddeg chwech o gyfnodau adrodd ar ôl y 15 mlynedd, a chaiff yr Awdurdod alw ar y ddarpariaeth yn ôl ei ddisgresiwn.

3.3 Mae rhai gwasanaethau'n ymwneud â'r gwaith dylunio a darganfod rhagarweiniol rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd a gychwynnodd cyn dyddiad dechrau'r gwasanaethau rheilffyrdd, ac fe wnaethant ddechrau ar 4 Mehefin 2018.

3.4 Mae'r telerau a'r amodau wedi'u rhoi ar gontract yn y Cytundeb Grant GPD, sy'n nodi ymrwymiadau 'r GPD dan y categorïau gwasanaeth hyn.

**Gwasanaethau Rheilffyrdd**

3.5 Mae'r gwasanaethau rheilffyrdd yn cynnwys pob llwybr a gwasanaeth sydd o fewn masnachfraint Cymru a Thros y Ffin. Pennir y gwasanaethau angenrheidiol, y capasiti, ansawdd gwasanaethau, perfformiad a materion eraill. Mae'r telerau a'r amodau, gan gynnwys taliadau, dangosyddion perfformiad allweddol, adroddiadau, rheoli perfformiad a gorfodi, wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant GPD.

3.6 Mae Cytundeb Grant GPD yn delio â gweithrediad gwasanaethau ar Reilffyrdd y Cymoedd cyn ac ar ôl yr adeg pryd mae asedau Rheilffyrdd y Cymoedd i fod i gael eu trosglwyddo o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru wrth drawsnewid Rheilffyrdd y Cymoedd.

3.7 Mae'r GPD wedi ymrwymo i wella gwasanaethau, ac mae crynodeb ar gael yn Adran 5 isod.

3.8 Mae telerau'r contract Gwasanaethau Rheilffyrdd yn seiliedig ar Delerau Masnachfraint Rheilffyrdd yr Adran Drafnidiaeth.

**Gwaith Seilwaith, a Gwasanaethau**

3.9 Mae Cytundeb Grant GPD yn gofyn am drawsnewid asedau Rheilffyrdd y Cymoedd er mwyn gallu sefydlu gwasanaeth metro ar Reilffyrdd y Cymoedd. Mae hyn yn gofyn am ddarparu gwaith adeiladu a gwasanaethau gan y GPD dros gyfnod yn arwain at gwblhau'r gwaith trawsnewid erbyn 2024.

3.10 Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei wneud gan Bartneriaid Cyflenwi Seilwaith, ar gontract annibynnol gan Drafnidiaeth Cymru, i gyflawni'r gwaith o drawsnewid Rheilffyrdd y Cymoedd yn ôl dyluniad a phenderfyniad y GPD. Mae'r GPD yn asiant rheoli ar gyfer contractau'r Partneriaid Cyflenwi Seilwaith.

3.11 Mae contract Gwaith a Gwasanaethau Seilwaith yn dilyn model y Contract newydd ar gyfer Peirianneg a Gwaith Adeiladu (NEC), ac mae wedi'i ddiwygio i adlewyrchu rolau cysylltiedig y GPD fel Rheolwr Seilwaith a Gweithredwr Gwasanaethau Rheilffyrdd.

**Gwasanaethau Rheolwr Seilwaith**

3.12 Yn dilyn trosglwyddo asedau Rheilffyrdd y Cymoedd o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru, rhaid i'r GPD fod yn Rheolwr Seilwaith am yr asedau hynny er mwyn i weithrediad y gwasanaethau rheilffyrdd ar Reilffyrdd y Cymoedd allu parhau ar ôl eu trosglwyddo, a hynny drwy gyfnod y trawsnewid i'r adeg pryd bydd y gwasanaethau metro yn cael eu cyflenwi'n sefydlog.

# 4. Cytundeb Grant GPD – Materion i'w Nodi

**Infraco ac Opco**

4.1 Mae'r GPD yn cyflawni'r gwasanaethau hyn drwy is-gontractio i Gwmni Gweithrediadau (Opco) a Chwmni Seilwaith (Infraco).

4.2 Mae hyn yn golygu bod modd cyflawni rhai o'r synergeddau sy'n gysylltiedig ag integreiddio Rheoli Seilwaith a Gweithrediadau Rheilffyrdd yn fertigol, tra'n cynnal y gofynion rheoleiddio ar gyfer gwahanu.

**Gwasanaethau yn Lloegr**

4.3 Mae'r Cytundeb Grant GPD yn delio â gwasanaethau yng Nghymru a'r rhai sy'n croesi'r ffin i Loegr. Nid yw Cytundeb Grant GPD yn camwahaniaethu, o ran gofynion darparu gwasanaeth, rhwng Gwasanaethau yng Nghymru a Gwasanaethau yn Lloegr.

4.4 Mae yna ofynion ychwanegol i wneud adroddiadau ar wahân ar wasanaethau yn Lloegr drwy Uned Fusnes y Gororau, fel bod modd cynnal a gwella'r ffordd o ddelio â theithwyr a phartïon sydd â diddordeb yn Lloegr, fel rhanddeiliaid allweddol.

**Trosglwyddo Asedau Rheilffyrdd y Cymoedd**

4.5 Mae trawsnewid Rheilffyrdd y Cymoedd yn digwydd yn dilyn trosglwyddo asedau Rheilffyrdd y Cymoedd o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru, ac mae'n ddibynnol ar hynny. Mae wedi'i drefnu i ddigwydd yn rhan olaf 2019.

**Amser mae Teithwyr yn ei Golli (ATG)**

4.6 Mae ATG yn mesur amseroldeb trenau, sy'n cynnwys y defnydd a ddisgwylir o wasanaethau, gan ddarparu mesur o amser mae teithwyr yn ei golli oherwydd oedi i wasanaethau yng Nghymru a Thros y Ffin. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar fesurau Network Rail o amseroldeb trenau sy'n bwydo'r Mesur Perfformiad Cyhoeddus, ond yna mae'n cymhwyso cyfrifiad sy'n cynnwys pwysoli llwybrau gwasanaethau. Wrth i'r ATG gael ei ddatblygu a'i gymhwyso, bydd yn cyfrannu at, ac yn annog, penderfyniadau gan y GPD i geisio lleihau effaith oedi ar deithwyr ar Reilffyrdd y Cymoedd a rhwydwaith Cymru a Thros y Ffin.

**Trafnidiaeth Cymru**

4.7 Brand cyhoeddus y GPD yw “Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru”. Mae iddo yr un ystyr â GPD.

4.8 Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni sydd dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ac mae ganddo bwerau asiant i reoli’r Cytundeb Grant GPD ymysg swyddogaethau a chyfrifoldebau eraill.

**Cyfnodau Adrodd**

4.9 Mae'r cyfnodau adrodd yn y Cytundeb Grant GPD yn dilyn arferion y diwydiant rheilffyrdd, ac maent yn seiliedig ar yr 13 o gyfnodau pedair wythnos ymhob blwyddyn galendr. Mae cylch yr adroddiadau perfformiad a’r taliadau yn dilyn y cyfnodau adrodd hyn.

4.10 Mae’r adroddiadau a’r taliadau am wasanaethau Atodlen 3B, sef Prif Wasanaethau Seilwaith a Gwaith Seilwaith GPD, yn defnyddio misoedd calendr, nid cyfnodau'r adroddiadau rheilffyrdd.

## 5. Ymrwymiadau Allweddol y GPD

5.1 Mae'r GPD wedi ymrwymo i wella gwasanaethau, ac mae crynodeb ar gael yn yr adran ganlynol. Yn gryno, nid yw'r adran hon yn delio â manylion hyd a lled y materion sydd ynddi ac sydd wedi’u nodi yn y dogfennau a ddisgrifir yn Adrannau 6 a 7.

**Gwasanaethau**

5.2 2019

- Trenau wedi’u hadnewyddu ar gyfer Metro Gogledd Cymru, gan gynnwys socedi pŵer a seddi ychwanegol.
- Diddymu trenau Pacer yn raddol, a chyflwyno 12 o drenau dosbarth 170.
- Dechrau gwaith cydosod newydd mewn ffatri yng Nghasnewydd.

5.3 2020

- Dechrau mentrau prisiau newydd i docynnau, gan gynnwys rhai am hanner pris i bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed.
- Bydd gorsaf newydd yn agor yn Bow Street yn Aberystwyth ym mis Mawrth.
- Lansio cynllun talu-wrth-deithio ar gyfer Metro De Cymru (gan roi rhagor ar waith yn 2021).

5.4 2021

- Gwasanaeth newydd Metro De Cymru o Lynebwy i Gasnewydd.
- Dechrau cyflwyno'r trenau cyntaf o blith y 148 o drenau newydd.
- Wi-Fi am ddim i drenau a gorsafoedd.

5.5 2022

- Cyflwyno cerbydau Metro. Bydd pedwar yn gwasanaethu Aberdâr a Merthyr a Threherbert bob awr.
- Gorsaf newydd yn agor yn Ffordd Crwys, Caerdydd.
- Saith o wasanaethau ychwanegol rhwng Amwythig ac Aberystwyth.
- Un deg chwech o wasanaethau ychwanegol rhwng Caerdydd a Cheltenham.
- Dau wasanaeth ychwanegol ar linell Calon Cymru.
- Bydd teithiwr yn gallu mynd ar y trên ar yr un lefel ar Reilffyrdd y Cymoedd.
- Gwasanaeth newydd rhwng Lerpwl a Chaerdydd drwy Wrecsam Cyffredinol ac Amwythig.

5.6 2023

- Cyflwyno mwy o wasanaethau ar ddydd Sul.
- Gwasanaethau metro ar linell Dinas Caerdydd.
- Agor gorsaf Sgwâr Loudon a gorsaf newydd Bae Caerdydd, gan gynnwys rhedeg ar y stryd.

- Trenau tri-modd newydd (disel/batri/trydan) i weithredu o Coryton, Rhymni i Ynys y Barri a Phenarth i Ben-y-bont ar Ogwr drwy Gaerdydd.

5.7 2024

- Gwasanaethau Treherbert, Aberdâr, Merthyr a Rhymni yn cynyddu i ddau bob awr ar ddydd Sul.
- Cyflwyno dosbarth cyntaf ar wasanaeth Abertawe i Fanceinion.
- Targed i gael 100% o achrediadau gorsaf ddiogel.

**Gorsafoedd**

5.8 Mae'r GPD wedi ymrwymo i gyflawni rhaglen o fuddsoddiad mawr mewn gorsafoedd, i wella safonau a chyfleusterau i gwsmeriaid, i wella cyflwr yr ystâd ac i gynyddu perfformiad gweithredol a dibynadwyedd ystâd y gorsafoedd.

5.9 Mae hyn yn cynnwys:

- Arolwg llawn o gyflwr pob gorsaf yn y rhwydwaith.
- Creu model gwybodaeth am asedau gorsafoedd i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau am gynlluniau buddsoddi mewn systemau rheoli asedau gorsafoedd i wella'r wybodaeth ganolog a gwybodaeth am asedau gorsafoedd.
- Creu Cynllun Rheoli Asedau Gorsafoedd, a chysoni/gwella prosesau i sicrhau achrediad ISO 55001.
- Dylunio a darparu Cynllun Gwella Gorsafoedd i gyflawni bron i £200m o welliannau i orsafoedd, sy'n cynnwys cynllun gwella i bob gorsaf yn y rhwydwaith, gan gynnwys:
    - Monitro teledu cylch cyfyng ymhob gorsaf.
    - System Wybodaeth Gyfrifiadurol wella, a sgrin wybodaeth ddigidol newydd.
    - Cyfleusterau gwell ar orsafoedd, gan gynnwys ychwanegu/ailwampio ystafelloedd aros, cysgodfannau ar blatfformau a thoiledau.
    - O leiaf 1,500 o fannau parcio newydd i geir, a chysgodfannau ychwanegol i feiciau, i wella mynediad i gwsmeriaid.

- Manwerthu masnachol gwell mewn gorsafoedd.
- Hygyrchedd gwell drwy fwy o gynlluniau gorsafoedd heb risiau.
- Prosiectau mewn gorsafoedd Hwb a Chyfnewidfa allweddol i wella swyddfeydd tocynnau, cyfleusterau i gwsmeriaid a hygyrchedd.
- Prosiectau cymunedol, gydag arian i wneud defnydd newydd o hen orsafoedd.
- Ailfrandio pob gorsaf.
- Cronfa ar gyfer Gorsafoedd Gwyrdd a Gwaith Celf.

5.10 Mae'r GPD wedi ymrwymo i'r gwelliannau canlynol ar orsafoedd, ymysg pethau eraill:

- Caer: gwelliannau i'r gynteddfa / cyfnewidfa, a maes parcio.
- Shotton: integreiddio gorsafoedd uchel ac isel, cyfnewidfa a gallu ar gyfer Metro Gogledd Cymru.
- Llanelli: amgylchedd gwell, creu lleoedd a chysylltedd.
- Wrecsam Cyffredinol: cyfnewidfa aml-foddol, Creu Lle, gallu ar gyfer Metro Gogledd Cymru.
- Y Fenni: cyfleusterau gwell, mynediad, edrychiad a gorsaf dreialu allweddol ar gyfer Anabledd Cymru o ran hygyrchedd a dylunio cynhwysol.
- Blaenau Ffestiniog: adeiladau newydd i'r orsaf, fel rhan o bartneriaeth leol i gefnogi Llinell Dyffryn Conwy, y gymuned leol, twristiaeth a Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.
- Caerfyrddin: llwybrau cerddwyr, ardal feicio a thwristiaeth.
- Cas-gwent: cyfleusterau i dwristiaid, manwerthu a chyfnewidfa ar gyfer bysiau/coetsys.
- Machynlleth: uwchraddio cyfleusterau ar gyfer hwb Canolbarth Cymru a chysylltiadau twristiaeth, yn ogystal â gorsaf i dreialu nodweddion dylunio sy'n 'ystyriol o ddementia'.
- Merthyr Tudful: cyfleusterau hwb ar gyfer Teithio Llesol.

## 6. Cynnwys y Cytundeb Grant

| Cytundeb Grant GPD / Atodlen | Crynodeb |
|---|---|
| **Cytundeb Grant GPD -** Tu blaen | Mae hyn yn cynnwys y prif delerau ac amodau sy'n gymwys i'r holl Gytundeb Grant.<br>Ymhob rhan o'r Cytundeb Grant lle mae term yn dechrau â phriflythyren, bydd term penodol yn cael ei ddiffinio ar gyfer y Cytundeb Grant GPD. Mae Cymal 3 yn cynnwys y diffiniadau ar gyfer y termau penodol hyn, a dyma'r lle cyntaf i fynd i edrych beth yw eu hystyr.<br>Mae Cymal 5 yn delio â Thelerau'r Cytundeb Grant, sy'n 15 mlynedd ond gellir ei ddiwygio fel y nodir yng nghymal 5. |
| **Atodlen 1.1. "Gwasanaethau Rheilffyrdd a Datblygu Gwasanaethau"** | Mae'n delio â'r gwasanaethau rheilffyrdd angenrheidiol, pennu'r llwybrau y gellir eu rhedeg, y broses ar gyfer datblygu amserlenni, cytuno ar Gynlluniau Trenau a materion cysylltiedig eraill. Mae'r Gofynion Gwasanaethau Trên wedi'u cynnwys yn Atodiad 1, sy'n nodi'r gwasanaethau trên sy'n gymwys ar bob dyddiad pryd mae'r amserlenni'n cael ei newid. Ymdrinnir hefyd â chynllunio capasiti a rheoli torfeydd. |
| **Atodlen 1.2 "Ymrwymiadau Gweithredu"** | Mae'n delio â'r gofynion gweithredu dyddiol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd, newid amserlenni a rheoli digwyddiadau arbennig. |
| **Atodlen 1.4 "Ymrwymiadau tuag at y Teithwyr"** | Mae'n delio â gwasanaethau i gwsmeriaid, megis darparu gwybodaeth, gwerthu tocynnau, darparu Wi-Fi, glanhau trenau a gorsafoedd, cyhoeddi data perfformiad.<br>Hefyd, mae paragraff 10 yn delio â gofynion marchnata a chyfathrebu. |
| **Atodlen 1.5 "Gwybodaeth am Deithwyr"** | Mae'n delio â chasglu gwybodaeth am nifer teithwyr, a chyfri a darparu data.<br>Mae'r gofynion Data Teithio Agored ym mharagraff 9 yn delio â darparu data i ddarparwyr apiau i gefnogi dulliau gwell o roi gwybodaeth i deithwyr. |

| Cytundeb Grant GPD / Atodlen | Crynodeb |
|---|---|
| **Atodlen 1.6 "Y Stoc Cerbydau"** | Mae'n delio â'r gofynion ar gyfer y stoc cerbydau. Mae'r atodiadau'n cynnwys gofynion sylfaenol y stoc cerbydau a'r stoc cerbydau y mae'r GPD yn ei gynnig ar gyfer Telerau'r Cytundeb Grant. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gapasiti a chyfleusterau. |
| **Atodlen 1:7 "Gorsafoedd"** | Mae'n delio â gwybodaeth am reoli gorsafoedd (sy'n cael eu rheoli fel rhan o'r Gwasanaethau) ac ym mharagraff 13 mae'n gosod safonau sylfaenol ar gyfer gorsafoedd.<br>Mae Atodiad 1 yn delio ag ymrwymiadau i ddiogelu gorsafoedd a meysydd parcio, ac mae'n cynnwys dyddiad cwblhau arfaethedig. |
| **Atodlen 2.1 - 2.3 "Asedau, Prydlesi, Masnachfreintiau a Chynlluniau Eraill"** | Mae'n delio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer prydlesi asedau. |
| **Atodlen 2.5 "Cynlluniau Trafnidiaeth, Teithio a Chynlluniau Eraill"** | Mae'n disgrifio'r prisiau tocynnau teithio rhatach, disgownt ac aml-foddol y mae'n rhaid i'r GPD eu cefnogi. Mae Atodiadau 1 a 2 yn rhestru'r cynlluniau angenrheidiol penodol. |
| **Atodlen 3A – "Gwasanaethau Rheolwr Seilwaith"** | Yn dilyn trosglwyddo asedau Rheilffyrdd y Cymoedd o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru, a phrydlesu'r asedau i'r GPD wedi hynny, rhaid i'r GPD ddarparu'r Gwasanaethau Rheolwr Seilwaith. Mae'r rhain yn delio â phob agwedd ar reoli asedau Rheilffyrdd y Cymoedd o wely cledrau i signalu er mwyn i'r gweithredwr allu parhau i redeg gwasanaethau rheilffordd ar Reilffyrdd y Cymoedd. Mae rhai darpariaethau penodol ar gyfer gwahanol fathau o asedau a sut i'w rheoli.<br>Mae darpariaethau ychwanegol yn Atodlen 3A yn delio â'r broses ar gyfer adnewyddu asedau.<br>Mae swyddogaeth yr Adroddwr Annibynnol yn darparu cyngor arbenigol annibynnol i'r GPD a Thrafnidiaeth Cymru am reoli'r asedau.<br>Sylwch fod yr atodlen yn cael ei chynnwys fel dogfen ar wahân i weddill Cytundeb Grant GPD. |

| Cytundeb Grant GPD / Atodlen | Crynodeb |
|---|---|
| **Atodlen 3B - "Gwasanaethau Seilwaith a Gwaith Seilwaith y GPD"** | Mae'n delio â'r gofynion ar gyfer trawsnewid Rheilffyrdd y Cymoedd.<br>Y Prif Wasanaethau Seilwaith yw'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol i drawsnewid Rheilffyrdd y Cymoedd i gefnogi'r gwasanaethau rheilffyrdd gwell. Mae'r rhain yn cynnwys symud ymlaen o Ddylunio'r Cysyniad i'w ddylunio'n fanwl. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar Reilffyrdd y Cymoedd yn cael eu gwneud gan Bartneriaid Cyflenwi Seilwaith, dan gontract uniongyrchol gan Drafnidiaeth Cymru. Mae'r GPD yn gweithredu fel "Partner Cyflenwi" asiant rheoli ar gyfer y contractau hyn. (Atodiad 5)<br>Mae Gwaith Seilwaith y GPD yn caniatáu i rywfaint o'r gwaith gael ei gyflawni'n uniongyrchol gan y GPD mewn rhai amgylchiadau penodol. (Atodiad 6).<br>Mae Gwasanaethau Seilwaith Ychwanegol yn caniatáu i'r GPD ddarparu gwasanaethau seilwaith ar gyfer materion fel estyniadau i Reilffyrdd y Cymoedd.<br>Sylwch fod yr atodlen yn cael ei chynnwys fel dogfen ar wahân i weddill Cytundeb Grant GPD. |
| **Atodlen 4 – "Hygyrchedd a Chynhwysiant"** | Mae'n delio â'r gofynion ar y GPD o ran hygyrchedd a chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cyllideb ar gyfer mân waith. Mae'r Polisi Diogelu Pobl Anabl wedi'i gynnwys ym mharagraff 4, gyda materion perthnasol eraill. |
| **Atodlen 5 – "Prisiau Tocynnau a Thocynnau Clyfar"** | Mae'n delio â'r broses a'r gofynion ar gyfer dyrannu tocynnau i'r fasged docynnau, gosod y prisiau a rheoleiddio prisiau tocynnau.<br>Mae Atodlen 5.9 yn delio â thocynnau clyfar. Sylwch fod rhwymedigaethau yn delio â thocynnau clyfar mewn rhannau eraill o'r Cytundeb Grant GPD, gan gynnwys yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau. |
| **Atodlen 6 – "Ymrwymiadau Gwasanaethau** | Mae Atodlen 6.1 "Ymrwymiadau Penodol i Wasanaethau Rheilffyrdd" yn cynnwys ymrwymiadau ledled y DU i gydweithio. Roedd materion ychwanegol yn cynnwys ymrwymiadau Ad-daliad am Oedi (paragraff 3) ac Uned Fusnes |

| Cytundeb Grant GPD / Atodlen | Crynodeb |
|---|---|
| **Rheilffyrdd ac Ymrwymiadau Penodol"** | y Gororau, sy'n delio â gwasanaethau yn Lloegr (paragraff 4)<br>Mae Atodlen 6.2 "Ymrwymiadau Penodol" yn cynnwys tabl o'r Ymrwymiadau Penodol. Mae'r rhain yn cael eu gosod yn uchel ond maent yn cofnodi ymrwymiadau ariannol allweddol y GPD. |
| **Atodlen 7.1 - "Perfformiad Gweithredol"** | Mae'n delio â mesurau perfformiad gweithredol ar gyfer y gwasanaethau rheilffyrdd, sy'n cynnwys:<br>Mae ATG - Amser mae Teithwyr yn ei Golli yn fesur a bwysolir o effaith oedi ar deithwyr, gyda rhwymedi ariannol;<br>Trefniannau Byr - sef mesur lle mae llai o gapasiti yn cael ei ddarparu yn y gwasanaeth nag a drefnwyd yn yr amserlen ac sy'n cynnwys rhwymedi ariannol;<br>Canslo a Pheidio ag Aros mewn Gorsafoedd.<br>Mae'r meincnodau ar gyfer perfformiad wedi'u cynnwys yn yr atodlen hefyd. |
| **Atodlen 7.2 - "Arolygon Teithwyr National Rail, Adroddiadau i Gwsmeriaid a Chynllun Buddsoddiad mewn Cwsmeriaid a'r Gymuned (CCI)"** | Mae'n cynnwys mesurau yn seiliedig ar Arolygon Teithwyr National Rail, Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid, ac Arolwg Siopwr Cudd. Mae'r gofynion ar gyfer Cynllun Buddsoddi mewn Cwsmeriaid a'r Gymuned (CCI) wedi'u nodi ym mharagraff 18.<br>Mae rhwymedigaethau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynnwys ym mharagraffau 15 ac 16. |
| **Atodlen 7.3 - "Cyfundrefn Ansawdd Gwasanaethau"** | Mae system rheoli ansawdd gwasanaeth a meincnodau ansawdd gwasanaeth wedi'u nodi yn yr atodlen hon. Mae'r rhain yn cynnwys y gorsafoedd a'r stoc cerbydau. |
| **Atodlen 7.4 - "Cyfundrefn Teithio heb Docyn"** | Mae'n gosod y dull ar gyfer arolygon teithio heb docyn (Atodiad 2) a'r meincnodau y mae'n rhaid i'r GPD eu cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys rhwymedi ariannol. |
| **Atodlen 7.5 - "Cyfyngiadau ar Ddefnydd Rheilffyrdd y Cymoedd"** | Mae'n delio ag eiddo ar Reilffyrdd y Cymoedd ar ôl i'r GPD ddechrau bod yn Rheolwr Seilwaith dros Reilffyrdd y Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys rhwymedi ariannol. |

| **Cytundeb Grant GPD / Atodlen** | **Crynodeb** |
|---|---|
| **Atodlen 8.1 - "Taliadau Gwasanaethau Rheilffyrdd"** | Mae’n delio â chyfrifo a gwneud Taliadau Gwasanaethau Rheilffyrdd - sef y taliadau grant fel bod modd darparu gwasanaethau rheilffyrdd i gwsmeriaid. Mae taliadau’n cael eu gwneud yng nghylch cyfnod adrodd y rheilffyrdd, sef 4 wythnos, gydag 13 o daliadau y flwyddyn. |
| **Atodlen 8.2 - "Mecanwaith Rhannu Elw"** | Mae’n delio â’r prosesau a’r cyfrifiadau ar gyfer y mecanwaith rhannu elw er mwyn i'r elw a wneir gan y GPD gael ei rannu gyda’r Awdurdod. |
| **Atodlen 8.3 - "Addasiadau i Fynediad at Gledrau ac Addasiadau i Ffioedd Gorsafoedd"** | Mae’n nodi'r broses ar gyfer gwneud addasiadau i fynediad at gledrau a ffioedd gorsafoedd. |
| **Atodlen 8.4 - "Addasu Cymorth Refeniw"** | Mae’n delio â’r broses a’r allbwn os oes angen cymorth refeniw ar y GPD. Mae hyn yn cynnwys y trothwyon, y cyfnod rhybudd am wneud cais, a’r cynnydd yn y rhwymedigaethau ar y GPD pan elwir am gymorth refeniw. |
| **Atodlen 8.5 - "Taliadau Gwasanaethau Rheolwr Seilwaith"** | Mae’n delio â thaliadau am Wasanaethau Rheolwr Seilwaith a nodir yn Atodlen 3A. Gall statws y ffioedd fod yn “Ddatblygol”, “Cadarn” a “Sefydlog”. Mae’r holl ffioedd yn symud drosodd i “Sefydlog” dros amser. Mae taliadau’n cael eu gwneud yng nghylch cyfnod adrodd y rheilffyrdd, sef 4 wythnos, gydag 13 o daliadau y flwyddyn. |
| **Atodlen 8.6 "Taliadau Arian Grant"** | Mae Atodlen 8.6 yn delio â thaliadau arian grant ar gyfer depo Ffynnon Taf, sy'n cael ei ariannu gan ddefnyddio’r mecanwaith Gwerth Gweddilliol.<br>Mae Atodlen 8.7 yn delio ag arian grant arall, gan gynnwys stoc cerbydau a thurniau, ymysg materion eraill. |
| **Atodlen 9 – “Newidiadau ac Amrywiadau”** | Mae Atodlen 9.1 yn delio â’r broses ar gyfer newid y Model Ariannol Tendr Olaf (FTFM), y model ariannol go iawn a chyfrifo effaith y newidiadau. Nodir y trothwyon ar gyfer y newidiadau cymwys ac effeithiau cost newidiadau i Daliadau |

| Cytundeb Grant GPD / Atodlen | Crynodeb |
|---|---|
| | Gwasanaethau Rheilffyrdd yn deillio o newidiadau i'r Gwasanaethau Seilwaith neu Wasanaethau Rheolwr Seilwaith.<br>Mae Atodlen 9.3 yn delio ag amrywio'r Cytundeb Grant. |
| **Atodlen 10 – "Rhwymedïau, Digwyddiadau Diffygdalu a Digwyddiadau Terfynu"** | Mae Atodlen 10 yn nodi'r hawliau gorfodi sydd ar gael i'r Awdurdod, y digwyddiadau diffygdalu a digwyddiadau eraill sy'n caniatáu eu defnyddio, a digwyddiadau *force majeure* a allai fod yn berthnasol i'r gwasanaethau. |
| **Atodlen 11 – "Cyfarfodydd Perfformiad GPD a Gwybodaeth i Reolwyr"** | Mae'n delio ag adolygu perfformiad, penodi a phrosesau i staff allweddol, a darparu gwybodaeth i reolwyr gan gynnwys templedi adroddiadau a chyfrifon rheoli. |
| **Atodlen 12 – "Cyfamodau Ariannol a Bondiau"** | Mae'n disgrifio'r cyfamodau ariannol (mewn cymarebau hylifedd oes) sy'n cael eu darparu gan y GPD, a'r bondiau ariannol am berfformiad, tocynnau tymor a seilwaith. Mae'n ymwneud hefyd â gweithred gyllid wahanol sy'n disgrifio'r modd mae cymarebau hylifedd Opco (gwasanaethau rheilffyrdd) a chymorth rhiant-gwmni yn cael eu rheoli. |
| **Atodlen 13 – "Mentrau'r Diwydiant Rheilffyrdd ac Ymrwymiadau a Chynaliadwyedd Arloesi a Chaffael yn Foesegol"** | Mae Atodlen 13.1 yn delio â mentrau'r diwydiant rheilffyrdd, sy'n cynnwys gofynion mewn perthynas â Heddlu Trafnidiaeth Prydain, atal hunanladdiad, Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol (gan gynnwys sefydlu partneriaethau newydd yn ogystal â chefnogaeth i bartneriaethau cyfredol), mabwysiadu gorsafoedd a materion eraill.<br>Mae Atodlen 13.2 yn delio ag arloesi a rhwymedigaethau'r GPD i arloesi a chymryd rhan mewn mentrau arloesi.<br>Mae Atodlen 13.3 yn delio â chynaliadwyedd a chaffael yn foesegol, ac mae wedi'i rhannu'n wahanol rannau sy'n canolbwyntio ar faterion penodol:<br>Mae Rhan 1 yn gofyn am weithredu Cynllun a Strategaeth Datblygu Cynaliadwy a'u symud ymlaen drwy gyfnod y cytundeb;<br>Mae Rhan 2 yn delio â chaffael yn ddarbodus a moesegol, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu cyfleoedd i Fusnesau Bach a |

| Cytundeb Grant GPD / Atodlen | Crynodeb |
|---|---|
| | Chanolig a Mentrau yn y Trydydd Sector, caffael adnoddau'n foesegol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol; Mae Rhan 3 yn delio â materion cymdeithasol, gan gynnwys sgiliau, hyfforddiant, prentisiaethau a gofynion Cyflog Byw; Mae Rhan 4 yn delio â gofynion amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth, rheoli gwastraff, lleihau carbon a theithio llesol. Mae Atodiad 1 yn nodi'r adroddiadau cynaliadwyedd gyda nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau; mae Rhan 5 yn delio â materion diwylliannol a hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg. |
| **Atodlen 14 – "Cadwraeth Asedau"** ac **Atodlen 15 – "Rhwymedigaethau'n gysylltiedig â Therfynu"** | Mae gan Atodlen 14 y gofynion technegol cytundebol sy'n ymwneud ag asedau a chontractau allweddol. Yna, mae hyn yn bwydo i mewn i Atodlen 15, sy'n delio â'r gofynion pryd mae'r Cytundeb Grant GPD yn dod i ben. Mae Atodlen 14.6 yn delio â'r mecanwaith Gwerth Gweddilliol, ac mae'n cynnwys nifer o welliannau sy'n cael eu hariannu gan ddefnyddio'r mecanwaith hwn. |
| **Atodlen 16 – "Pensiynau"** | Mae'n delio â gofynion pensiynau, gan gynnwys rhwymedigaethau'r GPD o ran Cynllun Pensiynau'r Rheilffyrdd. |
| **Atodlen 17** – **"Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth"** | Mae'n delio ag ymrwymiadau'r GPD tuag at gyfrinachedd a chydymffurfio â Rhyddid Gwybodaeth. |
| **Atodlen 18 – "Cerrig Milltir"** | Mae'n delio â cherrig milltir y GPD ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r gwasanaethau, ac mae'n nodi taliadau oedi cerrig milltir os nad ydynt yn cael eu cyflawni.<br>Mae Atodlen 18.2 yn rhestru dibyniaethau'r Awdurdod ac eitemau eithriadol sydd y tu hwnt i reolaeth y GPD.<br>Mae Atodlen 18.3 yn delio â'r broses o dderbyn cerrig milltir, ac mae'r atodiad yn cynnwys proses dderbyn ar gyfer gwasanaethau y gellir eu cyflawni.<br>Sylwch fod cerrig milltir Trawsnewid Rheilffyrdd y Cymoedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o Atodlen 3B. |

## 7. Dogfennau Eraill

7.1 Dyma ddogfennau y mae'r Cytundeb Grant GPD yn cyfeirio atynt, sy'n darparu mwy o fanylion am ddatrysiad y GPD neu'n nodi materion ychwanegol. Dogfennau "gwaith" yw llawer ohonynt, sef mae'r Cytundeb Grant GPD yn cyfeirio at y fersiwn gychwynnol ond bydd y ddogfen yn cael ei datblygu ymhellach ac yn cael ei chynnal drwy gydol gyfnod y Cytundeb Grant. Mae'r dogfennau'n cynnwys y canlynol:

| **Dogfen Ychwanegol** | **Crynodeb** |
|---|---|
| **Gofynion Gwasanaethau Trên**<br>(Atodlen 1.1 Atodiad 1) | Gofynion Gwasanaethau Trên ar gyfer dyddiadau perthnasol pryd mae'r amserlenni'n cael eu newid. |
| **Cyfansoddiad Tablau Gofynion Sylfaenol Stoc Cerbydau a Fflyd y Trenau**<br>(Atodlen 1.6 Atodiadau 1 a 2) | Tablau'n dangos fflydoedd trenau a'r gofynion sylfaenol ar gyfer y stoc cerbydau |
| **Cynllun Gwella Gorsafoedd**<br>(Atodlen 1.7 Atodiad 3) | Y cynllun i wella gorsafoedd ar draws rhwydwaith Cymru a Thros y Ffin. |
| **Cynllun Datblygu Cymdeithasol a Masnachol Drafft ar gyfer Gorsafoedd**<br>(Atodlen 1.7 Atodiad 5) | Y cynllun drafft cychwynnol ar gyfer datblygiadau cymdeithasol a masnachol ar orsafoedd |
| **Cynllun Gwella Gwasanaeth** | Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cynnwys nifer o welliannau sy'n cael eu cynnig gan y GPD neu rai mae wedi ymrwymo iddynt. Mae'r broses ar gyfer rheoli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth wedi'i nodi yn Rhan 2 o Atodlen 6.3. |
| **Cod Ymarfer ar gyfer Canslo a Pheidio ag Aros mewn Gorsafoedd**<br>**(Atodlen 7.1 Atodiad 3)** | Y cod ymarfer drafft cychwynnol ar gyfer y GPD am ganslo neu beidio ag aros mewn gorsafoedd ar gyfer y gwasanaethau rheilffyrdd. |
| **Gweithred gyllid**<br>**(Atodlen 12)** | Mae'r weithred gyllid yn rhan o Gytundeb Grant GPD, ac mae'n darparu'r Cymorth Rhiant-gwmni i Opco er mwyn sicrhau eu bod yn cadw lefel benodol o hylifedd (arian parod yn y cwmni). |

| Dogfen Ychwanegol | Crynodeb |
|---|---|
| **Cynllun ar gyfer Cydweithio â Network Rail**<br>**(Atodlen 13.1 Atodiad 3)** | Y cynllun drafft cychwynnol ar gyfer gweithio â Network Rail. |
| **Y Strategaeth Arloesi Gychwynnol**<br>**(Atodlen 13.2 Atodiad 1)** | Y strategaeth ddrafft gychwynnol ar gyfer arloesi i'r Gwasanaethau Rheilffyrdd. |
| **Cynllun Cychwynnol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy**<br>**(Atodlen 13.1 Rhan 1 Atodiad 1)** | Y strategaeth ddrafft gychwynnol ar gyfer cynaliadwyedd i'r gwasanaethau. |
| **Strategaeth Datblygu Cynaliadwy**<br>**(Atodlen 13.1 Rhan 1 Atodiad 2)** | Y strategaeth ddrafft gychwynnol ar gyfer cynaliadwyedd i'r gwasanaethau. |
| **Cynllun Gweithredu'r Gymraeg**<br>**(Atodlen 13.1 Rhan 5 Atodiad 1)** | Y Cynllun Gweithredu cychwynnol drafft ar gyfer y Gymraeg. |

## 8. Sicrhau eu bod yn cael eu Cyflawni

### Mecanweithiau Gorfodi a Chontractau

8.1 Mae gan yr Awdurdod nifer o reolau contractau a gorfodi. Yr atodlen allweddol i droi ati ar gyfer hyn yw Atodlen 10, er bod rhai darpariaethau eraill yn berthnasol. Dim ond y mecanweithiau sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon. Mae'r prosesau a'r amgylchiadau lle gellir eu defnyddio wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant GPD. Nid yw hon yn rhestr holl-gynhwysfawr o'r rhwymedïau a allai fod ar gael mewn amgylchiadau penodol. Dyma'r mecanweithiau ar gyfer rheoli a gorfodi contract:

- Taliadau Cerrig Milltir ac Oedi yn y Cerrig Milltir.
- Hysbysiad Rhybuddio.
- Taliadau a didyniadau Perfformiad ATG.
- Taliadau Trefniannau Byr.
- Taliadau Teithio heb Docyn.

- Taliadau Cyfyngu ar Ddefnydd (yn dilyn dechrau Gwasanaethau Rheolwr Seilwaith)
- Cynlluniau Perfformiad.
- Cynlluniau Rhwymedïol a Chytundebau Rhwymedïol.
- Gorfodi Deddf Rheilffyrdd (1993) Adran 55.

8.2 Hefyd, ac fel y nodir drwy gyfeirio at Atodlenni 7 ac 11 yn Adran 6 uchod, mae nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ac elfennau adrodd ynghylch gwasanaeth y mae'n rhaid i'r GPD eu darparu. Mae'r rhain yn cael eu darparu ar gyfer pob cyfnod adrodd o 4 wythnos, ac maent yn cael eu hadolygu yn yr adolygiadau perfformiad sy'n cael eu cynnal ar y cyd rhwng yr Awdurdod a'r GPD ar gyfer pob cyfnod gwasanaeth. Mae disgwyl i'r adroddiadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol gael eu datblygu ar y cyd drwy gyfnod y gwasanaethau. Mae gan yr Awdurdod hawl hefyd i fynnu adroddiadau ychwanegol os bydd eu hangen.

## 9. Taliadau

9.1 Mae'r Taliadau yn y Cytundeb Grant GPD wedi'u nodi yn Atodlen 8. Mae'r taliadau wedi'u gosod yn y categorïau canlynol:

- Taliad Gwasanaethau Rheilffyrdd – taliad Grant blynyddol ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd wedi'i gyfrifo yn ôl darpariaethau Atodlen 8.1. Mae'r taliad yn digwydd bob 4 wythnos mewn cylch adrodd sydd ag 13 cyfnod. Mae'r taliadau'n cael eu gwneud yn net o unrhyw ddidyniadau a rhwymedïau ariannol perfformiad, fel rhan o Atodlen 7, a allai fod wedi digwydd i'r GPD.
- Gwasanaethau Seilwaith a Gwaith Seilwaith GPD – taliadau ar gyfer rhaglen seilwaith Rheilffyrdd y Cymoedd a Phartneriaid Cyflenwi Seilwaith drwy broses gais am daliad (Atodlen 3b).
- Taliadau Gwasanaethau Rheolwr Seilwaith – taliadau am ddarparu Gwasanaethau Seilwaith ar gyfer asedau Rheilffyrdd y Cymoedd. Mae'r rhain yn digwydd drwy drosglwyddo asedau Rheilffyrdd y Cymoedd i Drafnidiaeth Cymru, a byddant yn cael eu talu'n fisol. (Atodlen 8.5)
- Arian grant ar gyfer adeiladu Depo Ffynnon Taf (Atodlen 8.6).

- Arian grant wedi'i gyfalafu ar gyfer asedau sy’n cynnwys turniau, a rhywfaint o stoc cerbydau ychwanegol (Atodlen 8.7).

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

EIS(5)-03-19(P3)

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**31 Ionawr 2019**

# Diweddariad ynghylch Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

## Map Ffyrdd a Sefyllfa Bresennol y Fargen Twf

**Cefndir**

Ym mis Gorffennaf 2017, estynnodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wahoddiad yn ceisio barn ynghylch Bargeinion Dinesig ac economïau rhanbarthol Cymru. Fel rhan o'r ymholiad ystyriwyd i ba raddau y gallai dull bargen twf ar batrwm tebyg fod o fudd i Ganolbarth Cymru.

Esboniwyd bod Tyfu Canolbarth Cymru yn bartneriaeth economaidd ranbarthol gynhwysol a threfniant ymgysylltu rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac mae'n un o bedair partneriaeth ar draws Cymru. Wedi'i sefydlu yn 2015, ei nod yw cynrychioli buddiannau'r rhanbarth a hyrwyddo blaenoriaethau er mwyn gwella ein heconomi leol. Pwrpas y bartneriaeth yw galluogi'r rhanbarth i gyflawni'i rôl fel pwerdy gwledig Cymru.

Mae Tyfu Canolbarth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull gweithredu bargen twf ar gyfer Canolbarth Cymru, ac mae'n credu bod dull gweithredu rhanbarthol o'r fath yn hanfodol ar gyfer datblygu economaidd oherwydd natur unigryw economi'r Canolbarth, ei dibyniaeth strwythurol ar y sectorau amaeth a thwristiaeth, y boblogaeth wasgaredig, y cyfraddau cynhyrchiant isel yn hanesyddol a'r gyfran uchel o fusnesau bach a chanolig. Prin iawn y gwelir y ffactorau hyn mewn unrhyw le arall ar raddfa mor fawr.

Ar y pryd roedd Tyfu Canolbarth Cymru yn datblygu dull gweithredu rhaglen i gyd-fynd â'r cyfleoedd sylweddol oedd yn seiliedig ar y sectorau yn y rhanbarth. Roedd hwn wedi canolbwyntio ar adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein themâu er mwyn sicrhau y gallwn symud ymlaen gyda chynnig neu gynigion a allai gefnogi rhaglen yn cynnwys elfennau priodol ar gyfer Bargen Twf.

Mewn cyd-destun cenedlaethol, byddai bargen twf ar gyfer Canolbarth Cymru yn golygu mabwysiadu dull gweithredu cyson ar draws Cymru o ran cymorth ariannol a datganoli pwerau i'r rhanbarthau.

Yn dilyn hyn cafodd Tyfu Canolbarth Cymru ei wahodd i baratoi cais ar gyfer Bargen Twf ac mae gwaith wedi mynd rhagddo gyda sefydliadau partner, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i weithredu ar hyn.  Byddai cynnig llwyddiannus ar gyfer Canolbarth Cymru yn gweld pob rhan o Gymru yn elwa o fargen twf Llywodraeth y DU.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Yn 2018 cafodd AECOM ei gomisiynu gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i lunio papur ar Strategaeth Economaidd ar gyfer y rhanbarth.  Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru am y 15 mlynedd nesaf.  Gweithredir ar y blaenoriaethau hyn trwy gyfrwng tair thema ac wyth rhaglen o brosiectau er mwyn trawsnewid yr economi ranbarthol.

Ein Gweledigaeth ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru yw:-

Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n darparu twf economaidd, sy’n cael ei gyrru gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau llewyrchus a dwyieithog.

Tair Thema ac Wyth Rhaglen y Strategaeth Economaidd Ranbarthol yw:-

- **Canolbarth Cymru Arloesol a Medrus**
  - Sgiliau
  - Arloesedd
- **Canolbarth Cymru Cystadleuol a Chynaliadwy**
  - Busnes
  - Ynni
  - Eiddo
- **Canolbarth Cymru Cysylltiedig ac Unigryw**
  - Trafnidiaeth
  - Digidol
  - Lle

Un cyfle allweddol ar gyfer 2019 yw sicrhau Bargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru sy'n creu twf economaidd trawsnewidiol ar gyfer y rhanbarth ac sy'n cyfateb â blaenoriaethau a rhaglen waith ehangach y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu arnynt trwy'r Strategaeth Economaidd Ranbarthol.

Mae'r dangosyddion gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â dadansoddiad o faint bargeinion blaenorol fesul gwerth ychwanegol gros a phoblogaeth yn awgrymu bod uchelgais Bargen Twf o £200m o gyllid yn un y gellir ei wireddu.

Mae Bargeinion Twf blaenorol a phrofiadau Bargen Twf Gogledd Cymru yn awgrymu'n gryf mai un rhaglen o brosiectau o fewn lleiafswm o bedair thema yn

canolbwyntio ar nifer fach o ganlyniadau economaidd sy'n gyson yn strategol yw'r un mwyaf tebygol o lwyddo.

Rydym yn ymwybodol hefyd fod cyfranogiad a galw yn y sector preifat yn ffactor mawr o ran cyllido Bargen Twf yn llwyddiannus a gwireddu canlyniadau.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio trwy gam un y broses o gael Bargen Twf ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru. Rydym yn disgwyl y bydd cam un yn mynd â ni hyd at yr hydref pan fyddwn yn gobeithio cael cyhoeddiad ynghylch pennawd y telerau. Gwerthfawrogwn fod hon yn amserlen dynn iawn ond teimlwn ei bod hi'n well cael amser penodol i'w anelu ato. Disgwylir i gam un roi sylw i'r gweithgareddau canlynol:-

**Amserlen/Proses - Cam Un**

- Cadarnhau'r Cyd-destun Strategol (cynnig AECOM).
- Cadarnhau'r Dull Llywodraethu Strategol – gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Disgrifio'r amrywiaeth o lwybrau cyllid a chadarnhau pa brosiectau ddylai gael eu cyllido trwy ba lwybr - bargen twf, bargeinion sector ac ati.
- Cytuno ar y prosiectau/pecynnau ar y cyd cychwynnol ar gyfer y fargen twf.
- Comisiynu Achos Busnes Amlinellol ar gyfer pob prosiect/pecyn.
- Cwblhau'r Ddogfen Cynnig ddrafft Awst/Medi 2019.
- Cyflwyno'r Cynnig ym Medi/Hydref 2019 gan arwain at gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddiwedd Hydref 2019.

Os bydd cam un yn llwyddiannus, disgwyliwn y bydd yn cymryd y rhan fwyaf o 2020 i gwblhau cam dau, a gobeithiwn gael setliad ariannol ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru erbyn yr hydref 2020.

**Amserlen/Proses - Cam Dau - Tachwedd 2019 Ymlaen**

- Comisiynu a chynnal Achosion Busnes Llawn ar gyfer pob prosiect/pecyn.
- Cyflenwi'r rhaglen gan gynnwys monitro a gwerthuso.

**Llywodraethu**

Mae cyfarfod blaenorol o'r Cyd-Gabinet Anffurfiol wedi ystyried yr opsiynau o ran llywodraethu ac wedi datgan mai'r dewis a ffefrir yw cael Cyd-bwyllgor gydag aelodaeth gyfartal o Gynghorwyr o bob Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd o'r Bwrdd Strategaeth Economaidd yn cynrychioli busnes preifat. Byddai dau Arweinydd y Cyngor yn gyd-Gadeiryddion y Cyd-bwyllgor, a statws sylwedydd yn unig fyddai gan y rhanddeiliaid eraill.

Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi datgan yn anffurfiol y dylai'r model hwn gael sêl bendith gweinidogol.

Er mwyn cefnogi'r opsiwn llywodraethu a ddewiswyd, rydym wedi sefydlu tîm gweithredol o uwch swyddogion a fydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o reoli swyddfa'r rhaglen yr ydym wrthi'n ei sefydlu.  Bydd swyddfa'r rhaglen yn canolbwyntio ar benderfyniadau gweithredol a'u cyflenwi.  Rydym hefyd yn agos at gadarnhau ein cynigion ar gyfer aelodaeth o Fwrdd Strategaeth Economaidd y sector preifat.  Bydd hyd at 10 o bobl busnes ar y bwrdd hwn yn cynrychioli Rhanbarth Canolbarth Cymru, gyda chadeirydd annibynnol a fydd yn aelod llawn o'r Cyd-bwyllgor.  Grŵp rhanddeiliaid allweddol yw hwn sy'n helpu i lunio a datblygu'r prosiectau strategol ar gyfer y Fargen Twf.  Disgwyliwn i fusnesau eraill gymryd rhan hefyd gyda'r ffrydiau gwaith ar y prosiectau amrywiol.

Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod drafft wedi cael ei baratoi ac rydym wrthi'n trafod y rolau ar gyfer y corff atebol a'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyd-bwyllgor.  Ar yr un pryd rydym wedi amlinellu cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd Strategaeth Economaidd ac wedi amlinellu agenda ddrafft ar gyfer y cyfarfodydd cyntaf a'r papurau ategol.  Rydym yn gobeithio cynnal cyfarfodydd cychwynnol ar gyfer y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd erbyn diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror.

Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar chwe thema ar gyfer prosiectau/pecynnau posibl ar gyfer y fargen twf.  Fel yr esboniwyd mae'r rhain yn ymwneud â chasgliadau papur AECOM sy'n amlinellu'r Strategaeth Economaidd Ranbarthol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru.

Dyma'r chwe thema ar gyfer y prosiectau/pecynnau a gytunwyd yng nghyfarfod anffurfiol diwethaf y Cyd-Gabinet:-

- **Twf busnes**:  Sefydlu pecyn buddsoddi arloesol mewn safleoedd ac eiddo wedi'u targedi i weithredu fel galluogydd allweddol i gyflenwi pecyn y Fargen Twf.
- **Sgiliau**:  Sefydlu Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol er mwyn creu Canolbarth Cymru arloesol a medrus.
- **Twristiaeth a Digwyddiadau**:  Sefydlu rhaglen buddsoddi strategol i gefnogi'r economi twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru.
- **Seilwaith**:  Sefydlu Canolbarth Cymru cysylltiedig ac unigryw trwy gyfrwng ymyraethau yn y seilwaith digidol a rheilffyrdd a mathau eraill o seilwaith allweddol.
- **Amaethyddiaeth / bio-ddiogelwch**:  Datblygu a manteisio i'r eithaf ar rôl arweiniol Canolbarth Cymru yn y bio-economi.
- **Ynni Carbon Isel**:  Sicrhau bod ynni fforddiadwy yn cael ei ddarparu ar gyfer cartrefi a busnesau Canolbarth Cymru.

**Y Camau Nesaf**

- Fel y soniwyd yn gynharach yn y papur briffio hwn, mae'n rhaid i ni adeiladu ar waith AECOM er mwyn parhau i nodi'r meysydd strategol hynny o allu sydd â'r potensial o lwyddo fel themâu posibl ar gyfer y Fargen Twf.
- Cyfranogiad busnesau preifat er mwyn nodi a diffinio'r prosiectau/pecynnau ar gyfer y Fargen Twf.
- Adolygiad ac adborth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y prosiectau/pecynnau posibl. Os ydynt yn dderbyniol gall gwaith ddechrau ar yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer pob prosiect/pecyn i'w gynnwys o fewn dogfen gynigion gyffredinol.
- Ceisio cymorth a chytundeb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer aelodaeth arfaethedig o'r Bwrdd Strategaeth Economaidd.
- Gobeithiwn gynnal cyfarfodydd cyntaf y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd cyn gynted â phosibl.

Rydym yn ymwybodol fod angenrheidiau strategol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid y Fargen Twf y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy:-

- Galw gan y sector preifat a chefnogi prosiectau.
- Arloesedd ac entrepreneuriaeth.
- Creu swyddi da a gwerth economaidd (swyddi gwerth uchel, safon uchel).
- Dad-garboneiddio.
- Masnach y byd.
- O fewn ein cyrraedd ac yn unigryw i ni (nid mwy o'r un peth ag eraill).

Bydd twf busnes hefyd yn dibynnu ar ein sefyllfa benodol ni yng Nghanolbarth Cymru fel economi wledig:-

- Rhaid i ni greu graddfa ystyrlon a chysylltiad â'r raddfa yn ein daearyddiaeth wledig.
- Bod tai ar gyfer y gweithlu a gweithlu'r dyfodol yn y lle iawn ac yn fforddiadwy.
- Ynni carbon isel a chost isel digonol i bweru twf busnes.
- Cysylltedd ein mannau ffisegol a digidol a'r gweithlu.
- Y mannau a'r safleoedd cywir ar gyfer busnesau.
- Mynediad i farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol mwy o faint.

Gyda chymorth ac arweiniad gan bob un o'n rhanddeiliaid rydym yn canolbwyntio ar gael y cyfleoedd gorau i'w datblygu ar gyfer twf economaidd tymor byr, canolig a hir Rhanbarth Canolbarth Cymru.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**Inquiry into City Deals and the Regional Economies of Wales**

**Response by North Wales Economic Ambition Board to the Economy, Infrastructure and Skills Committee Consultation**

The North Wales Economic Ambition Board is a partnership of the six Local Authorities in North Wales along with the two FE Colleges, the two Universities, the Chair of the Business Leadership Forum and the North Wales Business Council.

The Board was established to support the development of the economy of the region and has placed considerable emphasis on the successful delivery of a Growth Deal for North Wales, which will sit as part of a comprehensive vision for growing the economy in the region.

More recently the Board has evolved to become the governance body for the emerging North Wales Growth Deal.

The NWEAB welcomes the opportunity to respond to the Inquiry by the Economy, Infrastructure and Skills Committee. We have noted the recommendations from the previous inquiry carried out in 2017 and the response to those recommendations by the Welsh Government.

Progress with reaching agreement over Growth Deal for North Wales has been positive, with both the UK and Welsh Governments having recently committed to a financial envelope for a deal, which could provide up to £240 million to deliver a range of projects in the region. The projects are targeted at key business sectors that have the potential for transformational growth, or which support areas where additional capacity or infrastructure is needed to sustain growth in the economy.

Since the last evidence session of the committee, a detailed vision for the future of the economy in North Wales has been prepared by the NWEAB. This document **A Growth Vision for the Economy of North Wales** sets out ambitious proposals for closing the gap in economic productivity between North Wales and UK average productivity.

The document is available at the following site

https://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s9675/Appendix 1.pdf

The Growth Vision sets out long-term proposals for to grow our economy. The Growth Deal bid flows from this high level vision and in 2018, the NWEAB set out a proposal for a Growth Deal to the UK and Welsh Governments.

https://northwaleseab.co.uk/sites/nweab/files/documents/growth_plan_doc_5_final.8.feb_.2018english.cleaned.pdf

Since the publication of the Growth Deal bid, detailed discussions with both Governments have been held, to reach agreement over the potential projects to be included within a Growth Deal.

The NWEAB has also sought alternative funding for strategic projects included as part of the Growth Vision for North Wales. A positive example of this has been a successful bid into the UK Government Local Full Fibre Network (LFFN) programme. An additional £9 million towards the delivery of a digital strategy for North Wales has been provisionally approved, because of the opportunities highlighted in the Growth Vision.

In November 2018, the Chancellor committed a financial envelope of £120 million from the UK Government to fund a deal. In December 2018, the Welsh Government matched this amount.  This provides a potential funding envelope of up to £240 million for a North Wales Deal.

The list of schemes identified in the bid document is for a larger financial amount than has been committed by the two Governments. The total value of projects to be delivered in the bid document is approximately £347 million, so there is a significant funding shortfall. The NWEAB is currently undertaking a review to assess whether scope exists to re-profile expenditure, manage the overall programme or identify alternative funding sources for some projects.

In summary therefore, the fact that both Government have now agreed a funding envelope for a deal is positive. The sum currently committed is however lower than anticipated in the bid documentation and some difficult prioritisation decisions will need to be made to identify a package of projects for the final deal. Some worthwhile projects may have to be deferred in order to remain within the agreed financial envelope.

**Governance**

The NWEAB has undergone significant changes to its governance structure in order to facilitate the submission of a bid. The six Local Authorities have agreed to establish a Local Government Joint Committee as a model for the delivery of the bid. To this committee, the two Universities and two Further Education Colleges, and representatives from the Private Sector have associate status at the NWEAB meetings.

The governance models available to the NWEAB are limited to those available to establish Joint Committees under the Local Government Act 1972.  The bid so far has been developed in partnership with the North Wales Business Council and the Universities and Further Education Colleges. An effective partnership has

emerged to agree the bid. It is unfortunate therefore that the governance models available do not, allow associate partners to become part of the formal Joint Committee or to have voting rights in the NWEAB.

An initial governance agreement has been completed in order to submit the bid. To deliver a Growth Deal, a further more comprehensive governance agreement will be needed. Detailed discussions are underway for this second governance agreement.

In addition, agreement has been reached to establish a Business Leadership Forum to challenge the strategy, review and evaluate the projects contained within the deal. Establishing this private sector led group, has been a key feature of the UK Government requirements leading up to a deal.

The NWEAB will become a formal Joint Committee to deliver the Growth Deal. As well as the over-arching Joint Committee it is proposed that formal sub-committees will be established in the governance structure so that key strategic issues such as sites and premises development, strategic transport delivery and a potential Regional Energy Body, can be established. The NWEAB is supportive of establishing these formal bodies to deliver strategic regional activity, within a formal governance structure. Such regional bodies are well placed to lead on economic growth, strategic transport, delivery of programmes such as LFFN and to coordinate other local authority services to achieve sustained growth.

Effective partnerships with Welsh Government and other bodies should deliver a strong regional approach to future development.

**Funding Profile**

Funding for the Growth Deal by both Governments will be provided on a flat funding profile over a 15-year period. Given that the projects will be delivered over a much shorter time scale than this to ensure maximum impact for the economy, there is a cash flow issue to be managed. In essence, the Local Authorities could need to manage the accelerated cash flow through borrowing. This scenario, will add to the difficult financial position faced by all Local Authorities by requiring them to fund interest payments.

There is no external funding available at the moment to meet these additional borrowing costs.

The NWEAB is seeking some flexibility in the funding profile, especially in relation to the possible use of increased NNDR from the projects contained in the Growth Deal, as a way of offsetting the additional revenue costs that would otherwise impact on Local Authority budgets. Additional flexibility to vary the flat funding profile would also help offset the financial burden.

Because of the very tight local government budget settlement, the additional borrowing costs represent a potential risk to the Growth Deal project.

**Project Funding**

Both governments have now indicated an overall funding envelope for a Growth Deal. At this stage however, none of the potentially available funding has been allocated to specific projects. Work is underway to prepare a Heads of Terms agreement that will outline the financial commitments to specific projects.

There are some difficulties associated with this work, in that the UK Government can only fund project that are (1) non devolved matters (2) support the delivery of government objectives and strategies.

A number of the proposed projects, e.g. sites and premises development, transport connectivity projects and port related activity, cannot be funded bu UK Government because the activity has been devolved to Welsh Government. Projects that can be funded will need to fit within key UK Government strategies, such as the Industrial Strategy, Energy Strategy, Clean Growth Strategy etc.

As the proposed funding profile is balanced between the two Governments, this makes developing a final prioritised list of projects more complex.

Additional flexibility in the funding profile by which money is provided by the two Governments, would be helpful to help complete the Growth Deal.

**Business Case Development**

Once the Heads of Terms is agreed, it will be necessary to develop full 5 Case Business Plans for the individual projects. We understand that obtaining sign off to the business cases has been a lengthy process for other Growth Deals in Wales.

The need for a detailed level of scrutiny to provide assurance over project preparation, outcomes to be achieved and funding required is recognised. The NWEAB Members will wish to be confident of the funding profile and the potential for successful implementation of the schemes, especially as the financial risk sits mainly with local government.

The costs and time scale to develop full business cases on a project-by-project basis, is however significant.

There is a risk that the implementation of the Growth deal could be delayed as the business cases are developed in detail.

In addition, the changing economic environment impacts on the individual projects. Recent changes such as the announcement to suspend the Wylfa Newydd project and continuing uncertainty over Brexit, will result in projects changing over time.